OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 84

Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed *11 Mawrth 2026*

Yn dod i rym *13 Mawrth 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 84

The Local Elections (Wales) (Amendment) Rules 2026

Made *11 March 2026*

Coming into force *13 March 2026*

£23.70

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839855-7

9 780348 398557

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 84

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheolau)

Mae'r Rheolau hyn, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026, yn diwygio—

(a) Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1459 (Cy. 374)) ("y Rheolau Prif Ardaloedd"), a

(b) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1460 (Cy. 375)) ("y Rheolau Cymunedau").

Diwygio'r Rheolau Prif Ardaloedd a'r Rheolau Cymunedau

Mae'r Rheolau Prif Ardaloedd a'r Rheolau Cymunedau yn nodi'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau cynghorwyr i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru. Mae'r ddwy set o reolau yn cynnwys dwy Atodlen. Mae'r Atodlenni yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau, sydd ychydig yn wahanol gan ddibynnu a yw'r pôl ar gyfer etholiad yn cael ei gyfuno â phôl ar gyfer etholiad arall. Mae Rhannau 2 a 3 o'r Rheolau hyn yn nodi'r diwygiadau i'r rheolau a gynhwysir yn yr Atodlenni hynny.

Mae rheolau 4, 32, 61 a 86 yn diwygio'r rheolau ar bapurau enwebu i ganiatáu i ymgeiswyr gynnwys disgrifiad yn eu papurau enwebu sy'n ddisgrifiad ar y cyd sydd wedi ei gofrestru gan fwy nag un blaid wleidyddol gofrestredig.

Mae rheolau 5, 33, 62 a 87 yn diwygio'r rheolau sy'n galluogi'r swyddog canlyniadau i gywiro mân wallau mewn papurau enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref. Gan nad yw'r papurau enwebu rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnwys eu rhifau etholiadol, mae'r rheolau sy'n galluogi swyddogion canlyniadau i gywiro mân wallau mewn cysylltiad â rhifau etholiadol wedi eu hepgor.

Mae rheolau 6, 34, 63 ac 88 yn diwygio'r rheolau ynghylch edrych ar bapurau enwebu i'w gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau y gellir edrych ar y ffurflenni hynny pan fônt wedi eu danfon yn electronig.

Mae rheolau 7, 35, 64 a 89 yn diwygio'r rheolau ynghylch edrych ar ffurflenni cyfeiriad cartref i'w gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau y gall y personau cymhwysol edrych ar y ffurflenni hynny pan fônt wedi eu danfon yn electronig.

Mae rheolau 8, 36, 65 a 90 yn diwygio'r rheolau mewn perthynas â phapurau pleidleisio i'w gwneud yn ofynnol cynnwys y geiriau "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" ar y papur pleidleisio fel rhan o ddisgrifiad pan fo ymgeisydd wedi gofyn iddynt gael eu defnyddio yn ystod y broses enwebu.

Mae rheolau 9, 37, 66 ac 91 yn diwygio'r rheolau mewn perthynas â defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus at ddibenion cynnal y pôl fel nad yw defnyddio ystafell mewn adeilad heb ei feddiannu at y diben hwnnw yn peri bod person yn agored i dalu unrhyw dreth gyngor neu drethi annomestig.

Mae rheolau 10, 38, 67 a 92 yn diwygio'r rheolau ar benodi swyddogion llywyddu a chlercod i egluro na chaiff swyddog llywyddu awdurdodi clercod i orchymyn i unrhyw berson gael ei arestio mewn gorsaf bleidleisio.

Mae rheolau 11, 39, 68 a 93 yn diwygio'r rheolau sy'n ymwneud â'r cyfarpar y mae rhaid ei ddarparu mewn gorsafoedd pleidleisio. Mae'r diwygiadau yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â defnyddio fersiynau electronig o'r cofrestrau etholwyr, y rhestrau pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy a'r rhestrau rhifau cyfatebol. Maent hefyd yn diwygio'r gofynion mewn perthynas â'r cyfarpar y mae rhaid ei ddarparu i gynorthwyo pobl i bleidleisio'n annibynnol.

Mae rheolau 12, 13, 40, 41, 69, 70, 94 a 95 yn diwygio'r rheolau ar benodi asiantiaid pôl ac asiantiaid cyfrif er mwyn hwyluso'r defnydd o gyfeiriadau e-bost ar gyfer yr asiantiaid hyn.

Mae rheolau 14, 42, 71 ac 96 yn diwygio'r rheolau mewn perthynas â selio blychau pleidleisio i ddiwygio'r cyfeiriad at sêl y swyddog canlyniadau i gyfeiriad at sêl y swyddog llywyddu.

Mae rheolau 15, 43, 72 a 97 yn disodli'r rheolau sy'n nodi'r cwestiynau y gellir eu gofyn i bersonau sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio. Mae'r rheolau hyn wedi eu diwygio i'w gwneud yn glir y gellir gofyn y cwestiynau yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae'r rheolau diwygiedig yn nodi testun y cwestiynau yn y ddwy iaith.

Mae rheolau 16, 17, 44, 45, 73, 74, 98 a 99 yn diwygio'r rheolau mewn perthynas â phleidleiswyr ag anabledd neu nad ydynt yn gallu darllen i ddisodli'r holl gyfeiriadau at ddallineb gyda chyfeiriadau at amhariad difrifol ar y golwg.

Mae rheolau 18, 46, 75 a 100 yn diwygio'r rheolau ar bapurau pleidleisio a dendrwyd i egluro mai'r cwestiynau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) o'r rheolau hynny yw'r cwestiynau y caniateir eu gofyn yn unol â rheol 40.

Mae rheolau 19, 47, 76 a 101 yn diwygio'r rheolau sy'n manylu ar y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn wrth i'r pôl gau. Mae'r diwygiadau—

(a) yn ailddatgan paragraff (2) o'r rheolau fel ei fod yn gliriach i'r darllenydd,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau hefyd roi mewn pecynnau wedi eu selio, unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post ac unrhyw ddatganiadau pleidleisiau drwy'r post sydd wedi eu dychwelyd i'r orsaf bleidleisio ac nad ydynt wedi eu casglu fel arall yn ystod y dydd, ac

(c) yn ymdrin â selio unrhyw gofrestrau a rhestrau electronig a ddefnyddiwyd yn yr orsaf bleidleisio.

Mae rheolau 20, 21, 48, 49, 77 a 102 yn diwygio'r rheolau mewn perthynas â datgan canlyniadau'r etholiad i'w gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi'r datganiad a darparu'r hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r rheolau hefyd wedi eu diwygio i alluogi'r swyddog canlyniadau i ddefnyddio unrhyw gyfenwau neu unrhyw enwau blaen ymgeiswyr a ddefnyddir yn gyffredin wrth ddatgan y canlyniadau ac wrth ddarparu'r hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniadau hynny, pan fo'r cyfenwau neu'r enwau blaen hynny a ddefnyddir yn gyffredin wedi eu cynnwys ar y datganiad o bersonau a enwebwyd.

Mae rheolau 22, 50, 78 a 103 yn diwygio'r rheolau ar ddanfon dogfennau at y swyddog cofrestru ar ôl yr etholiad er mwyn egluro bod y dogfennau hynny i'w danfon yn ddiogel ac wedi hynny i'w storio'n ddiogel, ac er mwyn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys ar y pecynnau y mae'r dogfennau yn cael eu danfon felly ynddynt.

Mae rheolau 23 i 30, 51 i 58, 79 i 84 a 104 i 109 yn diwygio'r atodiadau i'r rheolau sy'n cynnwys y testun rhagnodedig ar gyfer y ffurflenni i'w defnyddio mewn etholiadau llywodraeth leol i adlewyrchu diwygiadau a wneir i'r rheolau o sylwedd ac i egluro elfennau penodol o'r ffurflenni.

Diwygio'r Rheolau Cymunedau

Mae rheol 59 yn diwygio rheol 5(12) o'r Rheolau Cymunedau sy'n ymdrin â llenwi swyddi cynghorwyr cymuned sy'n digwydd dod yn wag. Mae'r diwygiad yn darparu mai chwe mis olaf cynghorydd yn y swydd, at ddibenion rheol 5, yw'r cyfnod o chwe mis sy'n dod i ben ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad cyffredin nesaf o gynghorwyr cymuned.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheolau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheolau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 84

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*11 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*13 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 89(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ac adran 36A(1) i (5) a (9) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**), yn gwneud y Rheolau a ganlyn.

Yn unol ag adran 36A(7) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 36A(10) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a darpariaeth drosiannol

1.—(1) Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheolau hyn i rym ar 13 Mawrth 2026.

(3) Er bod y Rheolau hyn yn dod i rym o dan baragraff (2), nid ydynt yn cael effaith mewn perthynas â'r canlynol—

(a) cynnal etholiad cynghorwyr i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol pe bai'r pôl yn cael ei gynnal, pe ceid gornest yn yr etholiad, cyn 6 Mai 2027;

(b) cynnal etholiad cynghorwyr i gyngor cymuned pe bai'r pôl yn cael ei gynnal, pe ceid gornest yn yr etholiad, cyn 6 Mai 2027.

(**1**) 1972 p. 70. Diwygiwyd adran 89(6) gan baragraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) a chan baragraff 1(6) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).
(**2**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd adran 36A gan adran 13(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).

Dehongli

2. Yn y Rheolau hyn—

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983;

ystyr "y Rheolau Cymunedau" ("*the Communities Rules*") yw Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021(**3**);

ystyr "y Rheolau Prif Ardaloedd" ("*the Principal Areas Rules*") yw Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021(**4**).

RHAN 2

Diwygio'r Rheolau Prif Ardaloedd

Atodlen 1 i'r Rheolau Prif Ardaloedd

3. Mae Atodlen 1 i'r Rheolau Prif Ardaloedd (rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall) wedi ei diwygio yn unol â rheolau 4 i 30.

4. Yn rheol 6 (papurau enwebu: disgrifiadau), yn lle paragraff (4)(b) rhodder—

"(b) pan fo'r disgrifiad—

(i) yn cynnwys enw cofrestredig pob un o'r pleidiau a ddangosir yn y naill neu'r llall o'r fersiynau a ddisgrifir ym mharagraff (5) neu'r ddwy, neu

(ii) yn ddisgrifiad sydd wedi ei gofrestru i'w ddefnyddio gan bob un o'r pleidiau o dan adran 28B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**5**) (disgrifiadau ar y cyd), ac".

5. Yn rheol 16 (cywiro mân wallau mewn papurau enwebu neu ffurflenni cyfeiriad cartref), hepgorer paragraff (2)(a).

6. Yn rheol 17 (archwilio papurau enwebu), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo papurau enwebu wedi eu danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio."

7. Yn rheol 18 (archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Pan fo ffurflen cyfeiriad cartref wedi ei danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y ffurflen honno ar gael i'r personau a grybwyllir ym mharagraff (1) ei harchwilio."

8. Yn rheol 22(**6**) (y papurau pleidleisio), ar ôl paragraff (4)(a) mewnosoder—

"(aa) pan fo ymgeisydd wedi dewis defnyddio'r gair "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" mewn disgrifiad fel y'i nodir yn rheolau 6(7) a 7, arddangos y gair hwnnw neu'r geiriau hynny ar y papur pleidleisio,".

(**3**) O.S. 2021/1460 (Cy. 375), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/263 (Cy. 79).
(**4**) O.S. 2021/1459 (Cy. 374), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/263 (Cy. 79) ac O.S. 2023/1064 (Cy. 180).
(**5**) 2000 p. 41. Mewnosodwyd adran 28B gan adran 49(1) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22).
(**6**) Diwygiwyd rheol 22 gan reol 3(3) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

9. Yn rheol 26 (defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw defnyddio ystafell mewn adeilad heb ei feddiannu at ddiben cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau yn peri bod person yn agored i dalu unrhyw dreth gyngor neu drethi annomestig."

10. Yn rheol 30(**7**) (penodi swyddogion llywyddu a chlercod), ym mharagraff (5) ar ôl "gorchymyn i unrhyw berson gael" mewnosoder "ei arestio,".

11. Yn rheol 32(**8**) (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir darparu'r dogfennau a ddarperir yn unol â pharagraff (3)(b), (d) ac (e) ar ffurf papur neu ar ffurf electronig.";

(b) yn lle paragraff (6)(b) rhodder—

"(b) unrhyw gyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi personau perthnasol i bleidleisio'n annibynnol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42, gan gynnwys mewn perthynas â phleidleisio'n gyfrinachol.";

(c) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Yn y rheol hon, ystyr "personau perthnasol" yw personau sy'n ei chael yn anodd neu'n amhosibl pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42 oherwydd—

(a) amhariad difrifol ar y golwg neu ddallineb rhannol, neu

(b) anabledd arall.";

(d) hepgorer paragraff (8);

(e) ym mharagraff (11)(a), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(f) ym mharagraff (11)(b), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(g) ym mharagraff (12)(a), yn y testun Cymraeg, yn lle "blwch pleidleisio" rhodder "bocs pleidleisio";

(h) ar ôl paragraff (12) mewnosoder—

"(13) Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi canllawiau i swyddogion canlyniadau mewn perthynas â'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (6)(b).

(14) Cyn rhoi canllawiau o dan baragraff (13), rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymgynghori ag unrhyw bersonau, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau perthnasol, y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(15) Wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (6)(b), rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i ganllawiau a roddir o dan baragraff (13)."

12. Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (8)(a), yn lle "a chyfeiriadau'r" rhodder ", cyfeiriadau post a chyfeiriadau e-bost, pan fônt ar gael, y";

(b) ym mharagraff (9)(b), yn lle "a chyfeiriad yr asiant arall" rhodder ", cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost yr asiant arall, pan fônt ar gael".

(**7**) Diwygiwyd rheol 30 gan reoliad 3(2) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).
(**8**) Diwygiwyd rheol 32 gan reol 3(6) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

13. Yn rheol 34 (asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ei roi i asiant cyfrif gael ei anfon i'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd yn yr hysbysiad penodi."

14. Yn rheol 39(3)(b) (selio blychau pleidleisio), yn lle "y swyddog canlyniadau" rhodder "y swyddog llywyddu".

15. Yn lle rheol 40 (cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr) rhodder—

"Cwestiynau i'w gofyn i bleidleiswyr

40.—(1) Adeg cais am bapur pleidleisio, ond nid wedyn, caiff y swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1 (a nodir ym mharagraff (4)), neu yng ngholofn (1) o Dabl 2 (a nodir ym mharagraff (5)), un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(2) Os bydd ymgeisydd neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio'r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu wneud hynny, rhaid i'r swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1, un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(3) Caniateir gofyn cwestiwn yn Saesneg (fel y'i nodir yng ngholofn (2) o'r Tablau) neu yn Gymraeg (fel y'i nodir yng ngholofn (3) o'r Tablau).

(4) Mae Tabl 1 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) ac y caiff ymgeisydd, neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio ymgeisydd, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 1

Colofn (1)	***Colofn (2)***	***Colofn (3)***
Disgrifiad	**Y cwestiynau sydd i'w gofyn yn Saesneg**	**Y cwestiynau sydd i'w gofyn yn Gymraeg**
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr	1(a) "Are you the person registered in the register of local government electors for this election as follows?" *<u>Notes to 1(a)</u>* *The presiding officer must then read the whole entry from the copies of the registration records.* 1(b) "Have you already voted, in this or another electoral ward, at the election of councillors for this county/county borough, otherwise than	1(a) "Ai chi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn?" *<u>Nodiadau ar 1(a)</u>* *Yna rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen y cofnod cyfan o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.* 1(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
	as proxy for some other person?" *<u>Notes to 1(b)</u>* *The presiding officer must say either "county"or "county borough", as appropriate.The words ",in this or another electoral ward," may be omitted if an elections taking place only in one electoral ward.*	sir/fwrdeistref sirol hon, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?" *<u>Nodiadau ar 1(b)</u>* *Rhaid i'r swyddog llywyddu ddweud naill ai "sir" neu "fwrdeistref sirol", fel y bo'n briodol. Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward etholiadol hon i neu mewn ward etholiadol arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward etholiadol yn unig.*
2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr heblaw etholwr sydd â chofnod dienw	2(a) "Are you the person whose name appears as AB in the list of proxies for this election as entitled to vote as proxy on behalf of CD?" 2(b) "Have you already voted, in this or another electoral ward, at the election of councillors for the county/county borough, as proxy on behalf of CD?" 2(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of CD?" *<u>Notes to 2(a) to (c)</u>* *Where a question refers to AB, the presiding officer reads out the name as it appears in the list of proxies. Where a question refers to CD, the presiding officer reads out the name of the elector.*	2(a) "Ai chi yw'r person y mae ei enw'n ymddangos fel AB yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran CD?" 2(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r sir/fwrdeistref sirol, fel dirprwy ar ran CD?" 2(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres CD?" *<u>Nodiadau ar 2(a) i (c)</u>* *Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at AB, mae'r swyddog llywyddu'n darllen yr enw fel y mae'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon. Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at CD, mae'r swyddog*

Colofn (1)	***Colofn (2)***	***Colofn (3)***
		llywyddu yn darllen enw'r etholwr.
	Note to 2(b) *The presiding officer must say either "county" or "county borough", as appropriate. The words ", in this or another electoral ward," may be omitted if an electionis taking place only in one electoral ward.*	Nodyn ar 2(b) *Rhaid i'r swyddog llywyddu ddweud naill ai "sir" neu "fwrdeistref sirol", fel y bo'n briodol. Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward etholiadol yn unig.*
3. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr sydd â chofnod dienw, yn hytrach na'r cwestiynau yng nghofnod 2	3(a) "Are you the person entitled to vote as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [X]?" 3(b) "Have you already voted as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [X]?" 3(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of the elector whose number on the register of electors is [X]?" *Note to 3(a) to (c)* *Where the questions in this entry refer to [X], the presiding officer must read the elector's number from the copies of the registration records.*	3(a) "Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" *Nodyn ar 3(a) i (c)* *Pan fo'r cwestiynau yn y cofnod hwn yn cyfeirio at [X], rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen rhif yr etholwr o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.*
4. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy y gofynnwyd y cwestiwn sydd wedi ei rifo 2(c) neu 3(c)	4 "Have you already voted, in this or another electoral ward, at the election of councillors for the county/county	4 "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall, yn yr etholiad ar gyfer

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
iddo ac nad yw wedi ateb “ie”	borough, on behalf of two persons of whom you are not the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild?” <u>Note to 4</u> *The presiding officer must say either “county” or “county borough”, as appropriate. The words “, in this or another electoral ward,” may be omitted if an electionis taking place only in one electoral ward.*	cynghorwyr i’r sir/fwrdeistref sirol, ar ran dau berson nad ydych yn briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu’n nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn, yn ŵyr neu’n wyres iddynt?” <u>Nodyn ar 4</u> *Rhaid i’r swyddog llywyddu ddweud naill ai “sir” neu “fwrdeistref sirol”, fel y bo’n briodol. Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward etholiadol yn unig.*

(5) Mae Tabl 2 yn nodi’r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1), ond na chaniateir ei gwneud yn ofynnol i’r swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 2

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
Disgrifiad	**Y cwestiwn sydd i’w ofyn yn Saesneg**	**Y cwestiwn sydd i’w ofyn yn Gymraeg**
1. Person sy’n gwneud cais fel etholwr y ceir cofnod mewn perthynas ag ef yn y rhestr pleidleiswyr post	1(a) “Did you apply to vote by post?” 1(b) “Why have you not voted by post?”	1(a) “Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy’r post?” 1(b) “Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post?”
2. Person sy’n gwneud cais fel dirprwy ac sydd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy	2(a) “Did you apply to vote by post as proxy?” 2(b) “Why have you not voted by post as proxy?”	2(a) “Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy’r post fel dirprwy?” 2(b) “Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post fel dirprwy?”

(6) Ni chaniateir rhoi papur pleidleisio i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ateb un neu ragor o'r cwestiynau yn Nhabl 1 neu 2 oni bai bod y person wedi ateb y cwestiwn neu'r cwestiynau'n foddhaol.

(7) Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir ymholi ynglŷn â hawl unrhyw berson i bleidleisio.

(8) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau a ddarperir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr orsaf bleidleisio o dan reol 32(3)(b) ac (c) (copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol a chopïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol)."

16. Yn rheol 43(1)(a) (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg".

17. Yn rheol 44 (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cymdeithion)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(d) ym mharagraff (6)(a), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg".

18. Yn rheol 46(1) (papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "yn y bleidlais" mewnosoder "yn unol â rheol 40,".

19. Yn rheol 51(**9**) (y weithdrefn wrth gau'r bleidlais)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) selio pob blwch pleidleisio a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl, a

(b) rhoi allwedd y blwch pleidleisio, os oes un, ynghlwm wrth y blwch pleidleisio.";

(b) ar ôl paragraff (3)(f) mewnosoder—

"(g) y papurau pleidleisio post a'r datganiadau pleidleisio post a ddychwelwyd â llaw i'r orsaf bleidleisio, oni bai eu bod eisoes wedi eu casglu yn unol â rheoliad 79(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**10**).";

(c) ym mharagraff (3A), yn lle "neu (f)" rhodder ", (f) neu (g)";

(d) ar ôl paragraff (3B) mewnosoder—

(**9**) Diwygiwyd rheol 51 gan reoliad 3(2)(b) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).
(**10**) O.S. 2001/341. Ychwanegwyd rheoliad 79(4) gan O.S. 2006/752 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan O.S. 2006/2910 ac O.S. 2023/1225.

"(3C) Caniateir selio'r dogfennau a selir yn unol â pharagraffau (3)(c) a (d) a (3B) mewn pecynnau ffisegol neu becynnau electronig, a chaniateir i'r seliau a osodir ar y pecynnau hynny gael eu gosod yn ffisegol neu'n electronig, fel y bo'n briodol."

20. Yn rheol 60 (datgan y canlyniad)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r datganiad a wneir gan y swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (1) gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "hefyd" mewnosoder ", yn Gymraeg ac yn Saesneg";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), pan fo'r datganiad o'r personau a enwebwyd yn dangos enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan ymgeisydd, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau hynny a ddefnyddir yn gyffredin i ddatgan canlyniadau'r etholiad a rhoi hysbysiad yn eu cylch."

21. Yn rheol 60W(**11**) (datgan y canlyniad mewn etholiad lle ceir gornest)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r datganiad a wneir gan y swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (1) gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "hefyd" mewnosoder ", yn Gymraeg ac yn Saesneg";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), pan fo'r datganiad o'r personau a enwebwyd yn dangos enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan ymgeisydd, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau hynny a ddefnyddir yn gyffredin i ddatgan canlyniadau'r etholiad a rhoi hysbysiad yn eu cylch."

22. Yn rheol 62(**12**) (danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "a ganlyn" mewnosoder "yn ddiogel";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Mewn perthynas â phob pecyn, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu—

(a) disgrifiad o gynnwys y pecyn,

(b) dyddiad yr etholiad y mae'r pecyn yn gysylltiedig ag ef, ac

(c) enw'r ward etholiadol y cynhaliwyd yr etholiad ar ei chyfer.

(4) Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud trefniadau—

(a) i storio'n ddiogel yr holl ddogfennau sy'n dod i law yn unol â'r rheol hon, a

(**11**) Mewnosodwyd rheol 60W gan reol 4(2) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).
(**12**) Diwygiwyd rheol 62 gan reol 5 o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

(b) i atal unrhyw fynediad heb awdurdod at y dogfennau hynny."

23. Yn Atodiad 1 (ffurf papur enwebu), yn lle'r tabl yn adran 4 (datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid) rhodder—

<table>
<tr><td>"Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestredig</td><td colspan="2">Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech yn aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb i dd/mm/bbbb)

• Does dim angen i chi lenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.
• Os oeddech chi'n aelod o blaid ar ddechrau'r cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn O fydd dechrau'r cyfnod.
• Os gwnaethoch ymuno â phlaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn O fydd y dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r blaid.
• Os gwnaethoch beidio â bod yn aelod o blaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn Hyd at fydd y dyddiad y gwnaethoch adael y blaid.
• Os ydych yn parhau i fod yn aelod o blaid pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen, cewch roi "nawr" yn y golofn Hyd at yn hytrach na dyddiad.</td></tr>
<tr><td></td><td>O</td><td>Hyd at"</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

24. Yn Atodiad 2 (y papur pleidleisio)—

(a) yn ffurf blaen y papur pleidleisio—

(i) yn y paragraff cyntaf, ar ôl "[rhowch enw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ward]";

(ii) yn yr ail baragraff—

(aa) yn lle "y blwch nesaf at eich dewis" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â'ch dewis";

(bb) yn lle "y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o'ch dewisiadau";

(iii) mae enwau'r ymgeiswyr wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(aa) yn lle "JAMES, Lisa" rhodder "THOMAS, Rhiannon";

(bb) yn lle "THOMAS, Gareth" rhodder "SINGH, Mushaq";

(cc) yn lle "THOMAS RICHARDS, Angharad" rhodder "DAVID, Brandon";

(dd) yn lle "WYATT, Cath" rhodder "PAINTER, Heather";

(b) yn ffurf cefn y papur pleidleisio, yn y ffurf cyfarwyddydau ynghylch argraffu'r papur pleidleisio—

(i) ym mharagraff 3(a), ar ôl "[rhowch enw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ward]";

(ii) ym mharagraff 3(b)—

(aa) yn lle “y blwch nesaf at eich dewis” rhodder “y bocs pleidleisio gyferbyn â’ch dewis”;

(bb) yn lle “y blwch nesaf at bob un o’ch dewisiadau” rhodder “y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o’ch dewisiadau”.

25. Yn Atodiad 2A(**13**) (papur pleidleisio), yn ffurf blaen y papur pleidleisio, mae enwau’r ymgeiswyr wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle “JAMES, Lisa” rhodder “THOMAS, Rhiannon”;

(b) yn lle “KAY, Michael” rhodder “EVANS, Paul David”;

(c) yn lle “THOMAS, Gareth” rhodder “SINGH, Mushaq”;

(d) yn lle “THOMAS RICHARDS, Angharad” rhodder “BRANDON, David”;

(e) yn lle “WILLIAMS, Sian” rhodder “WILLIAMS, Claire”;

(f) yn lle “WYATT, Cath” rhodder “PAINTER, Heather”;

(g) yn lle “XERRI, Matthew” rhodder “SMITH, Joan Hazel”.

26. Yn Atodiad 4 (ffurf datganiad pleidleisio post), yn y cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio drwy’r post, yn y ddwy fersiwn o gyfarwyddiad 2, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”.

27. Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio)—

(a) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol i’w anfon neu i’w ddanfon at etholwr sy’n pleidleisio’n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn yr ail baragraff, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”;

(b) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy i’w anfon neu i’w ddanfon at ddirprwy sy’n pleidleisio’n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn y trydydd paragraff, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”.

28. Yn Atodiad 6 (canllawiau i bleidleiswyr)—

(a) yng nghyfarwyddyd 2, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”;

(b) ar ddiwedd y ffurf, ar ôl y paragraff olaf, mewnosoder—

“**Mae pleidleisio yn gyfrinachol. Peidiwch â gadael i neb weld sut rydych chi wedi pleidleisio.**

Os ydych chi’n gwneud camgymeriad neu os oes arnoch angen help, gofynnwch i’r staff.”

29. Yn Atodiad 6A(**14**) (canllawiau i bleidleiswyr), ar ddiwedd y ffurf, ar ôl y paragraff olaf, mewnosoder—

“**Mae pleidleisio yn gyfrinachol. Peidiwch â gadael i neb weld sut rydych chi wedi pleidleisio.**

Os ydych chi’n gwneud camgymeriad neu os oes arnoch angen help, gofynnwch i’r staff.”

30. Yn Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau)—

(a) yn nheitl y ffurf, yn lle “anableddau” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen”;

(**13**) Mewnosodwyd Atodiad 2A gan reol 6(2) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).
(**14**) Mewnosodwyd Atodiad 6A gan reol 6(5) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

(b) yn y paragraff cyntaf, ar ôl "[rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth]" mewnosoder "**";

(c) yn y trydydd paragraff, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(d) yn y paragraff sydd wedi ei farcio â seren, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(e) ar ôl y paragraff sydd wedi ei farcio â seren mewnosoder—

"**Nid yw enw'r pleidleisiwr i gael ei ychwanegu pan fydd gan y pleidleisiwr gofnod dienw. Yn hytrach, dim ond rhif y pleidleisiwr sydd i gael ei ychwanegu (*gweler nodyn 3*).";

(f) yn y nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau—

(i) ym mhennawd y nodiadau, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(ii) yn lle nodyn 1 rhodder—

"1. Rhif y pleidleisiwr yw rhif y person hwnnw yn y gofrestr sydd i'w defnyddio yn yr etholiad neu, hyd nes y cyhoeddir y gofrestr, rif y person hwnnw, os oes rhif, yn y rhestrau etholwyr ar gyfer y gofrestr honno. Mae rhif yr etholwr i'w weld ar y cerdyn pleidleisio a anfonwyd ato yn fuan ar ôl cyhoeddi'r etholiad neu gellir cysylltu â'r swyddog cofrestru i'w gadarnhau.";

(iii) ar ôl nodyn 2 mewnosoder—

"3. Pan fo gan y pleidleisiwr gofnod dienw, dim ond rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, ac nid enw'r pleidleisiwr, sydd i'w roi yn y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau sy'n cael cymorth gan gymdeithion."

Atodlen 2 i'r Rheolau Prif Ardaloedd

31. Mae Atodlen 2 i'r Rheolau Prif Ardaloedd (rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol) wedi ei diwygio yn unol â rheolau 32 i 58.

32. Yn rheol 6 (papurau enwebu: disgrifiadau), yn lle paragraff (4)(b) rhodder—

"(b) pan fo'r disgrifiad—

(i) yn cynnwys enw cofrestredig pob un o'r pleidiau a ddangosir yn y naill neu'r llall o'r fersiynau a ddisgrifir ym mharagraff (5) neu'r ddwy, neu

(ii) yn ddisgrifiad sydd wedi ei gofrestru i'w ddefnyddio gan bob un o'r pleidiau o dan adran 28B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (disgrifiadau ar y cyd), ac".

33. Yn rheol 16 (cywiro mân wallau mewn papurau enwebu neu ffurflenni cyfeiriad cartref), hepgorer paragraff (2)(a).

34. Yn rheol 17 (archwilio papurau enwebu), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo papurau enwebu wedi eu danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio."

35. Yn rheol 18 (archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Pan fo ffurflen cyfeiriad cartref wedi ei danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y ffurflen honno ar gael i'r personau a grybwyllir ym mharagraff (1) ei harchwilio."

36. Yn rheol 22(**15**) (y papurau pleidleisio), ar ôl paragraff (4)(a) mewnosoder—

"(aa) pan fo ymgeisydd wedi dewis defnyddio'r gair "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" mewn disgrifiad fel y'i nodir yn rheolau 6(7) a 7, arddangos y gair hwnnw neu'r geiriau hynny ar y papur pleidleisio,".

37. Yn rheol 26 (defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw defnyddio ystafell mewn adeilad heb ei feddiannu at ddiben cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau yn peri bod person yn agored i dalu unrhyw dreth gyngor neu drethi annomestig."

38. Yn rheol 30(**16**) (penodi swyddogion llywyddu a chlercod), ym mharagraff (5) ar ôl "gorchymyn i unrhyw berson gael" mewnosoder "ei arestio,".

39. Yn rheol 32(**17**) (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Caniateir darparu'r dogfennau a ddarperir yn unol â pharagraff (5)(b), (d) ac (e) ar ffurf papur neu ar ffurf electronig.";

(b) yn lle paragraff (8)(b) rhodder—

"(b) unrhyw gyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi personau perthnasol i bleidleisio'n annibynnol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42, gan gynnwys mewn perthynas â phleidleisio'n gyfrinachol.";

(c) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(8A) Yn y rheol hon, ystyr "personau perthnasol" yw personau sy'n ei chael yn anodd neu'n amhosibl pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42 oherwydd—

(a) amhariad difrifol ar y golwg neu ddallineb rhannol, neu

(b) anabledd arall.";

(d) hepgorer paragraff (10);

(e) ym mharagraff (13)(a), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(f) ym mharagraff (13)(b), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(g) ym mharagraff 13A(a), yn y testun Cymraeg, yn lle "blwch pleidleisio" rhodder "bocs pleidleisio";

(h) ar ôl paragraff (14) mewnosoder—

"(15) Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi canllawiau i swyddogion canlyniadau mewn perthynas â'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (8)(b).

(**15**) Diwygiwyd rheol 22 gan reol 7(3) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).
(**16**) Diwygiwyd rheol 30 gan reoliad 3(3) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).
(**17**) Diwygiwyd rheol 32 gan reol 7(6) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

(16) Cyn rhoi canllawiau o dan baragraff (15), rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymgynghori ag unrhyw bersonau, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau perthnasol, y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(17) Wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (8)(b), rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i ganllawiau a roddir o dan baragraff (15)."

40. Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (8)(a), yn lle "a chyfeiriadau'r" rhodder ", cyfeiriadau post a chyfeiriadau e-bost, pan fônt ar gael, y";

(b) ym mharagraff (9)(b), yn lle "a chyfeiriad yr asiant arall" rhodder ", cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost yr asiant arall, pan fônt ar gael".

41. Yn rheol 34 (asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ei roi i asiant cyfrif gael ei anfon i'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd yn yr hysbysiad penodi."

42. Yn rheol 39(3)(b) (selio blychau pleidleisio), yn lle "y swyddog canlyniadau" rhodder "y swyddog llywyddu".

43. Yn lle rheol 40 (cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr) rhodder—

"Cwestiynau i'w gofyn i bleidleiswyr

40.—(1) Adeg cais am bapur pleidleisio, ond nid wedyn, caiff y swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1 (a nodir ym mharagraff (4)), neu yng ngholofn (1) o Dabl 2 (a nodir ym mharagraff (5)), un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(2) Os bydd ymgeisydd neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio'r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu wneud hynny, rhaid i'r swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1, un neu ragor o'r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(3) Caniateir gofyn cwestiwn yn Saesneg (fel y'i nodir yng ngholofn (2) o'r Tablau) neu yn Gymraeg (fel y'i nodir yng ngholofn (3) o'r Tablau).

(4) Mae Tabl 1 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) ac y caiff ymgeisydd, neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio ymgeisydd, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 1

Colofn (1)	***Colofn (2)***	***Colofn (3)***
Disgrifiad	**Y cwestiynau sydd i'w gofyn yn Saesneg**	**Y cwestiynau sydd i'w gofyn yn Gymraeg**
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr	1(a) "Are you the person registered in the register of local government electors for this election as follows?"	1(a) "Ai chi yw'r person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn?"

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
	<u>Notes to 1(a)</u> *The presiding officer must then read the whole entry from the copies of the registration records.* 1(b) “Have you already voted, in this or another electoral ward, at the election of councillors for this county/county borough, otherwise than as proxy for some other person?” *<u>Notes to 1(b)</u>* *The presiding officer must say either “county” or “county borough”, as appropriate. The words “, in this or another electoral ward,” may be omitted if an election is taking place only in one electoral ward.*	*<u>Nodiadau ar 1(a)</u>* *Yna rhaid i’r swyddog llywyddu ddarllen y cofnod cyfan o’r copïau o’r cofnodion cofrestru.* 1(b) “Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i’r sir/fwrdeistref sirol hon, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?” *<u>Nodiadau ar 1(b)</u>* *Rhaid i’r swyddog llywyddu ddweud naill ai “sir” neu “fwrdeistref sirol”, fel y bo’n briodol. Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn un ward etholiadol yn unig.*
2. Person sy’n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr heblaw etholwr sydd â chofnod dienw	2(a) “Are you the person whose name appears as AB in the list of proxies for this election as entitled to vote as proxy on behalf of CD?” 2(b) “Have you already voted, in this or another electoral ward, at the election of councillors for the county/county borough, as proxy on behalf of CD?” 2(c) “Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother,	2(a) “Ai chi yw’r person y mae ei enw’n ymddangos fel AB yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran CD?” 2(b) “Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i’r sir/fwrdeistref sirol, fel dirprwy ar ran CD?” 2(c) “Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
	sister, child or grandchild of CD?" <u>Notes to 2(a) to (c)</u> *Where a question refers to AB, the presiding officer reads out the name as it appears in the list of proxies. Where a question refers to CD, the presiding officer reads out the name of the elector.* <u>Note to 2(b)</u> *The presiding officer must say either "county" or "county borough", as appropriate. The words ", in this or another electoral ward," may be omitted if an election is taking place only in one electoral ward.*	nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres CD?" <u>Nodiadau ar 2(a) i (c)</u> *Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at AB, mae'r swyddog llywyddu'n darllen yr enw fel y mae'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon. Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at CD, mae'r swyddog llywyddu yn darllen enw'r etholwr.* <u>Nodyn ar 2(b)</u> *Rhaid i'r swyddog llywyddu ddweud naill ai "sir" neu "fwrdeistref sirol", fel y bo'n briodol. Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward etholiadol yn unig.*
3. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr sydd â chofnod dienw, yn hytrach na'r cwestiynau yng nghofnod 2	3(a) "Are you the person entitled to vote as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [X]?" 3(b) "Have you already voted as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [X]?" 3(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of the elector whose number on the register of electors is [X]?"	3(a) "Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?"

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
	Note to 3(a) to (c) *Where the questions in this entry refer to [X], the presiding officer must read the elector's number from the copies of the registration records.*	Nodyn ar 3(a) i (c) *Pan fo'r cwestiynau yn y cofnod hwn yn cyfeirio at [X], rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen rhif yr etholwr o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.*
4. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy y gofynnwyd y cwestiwn sydd wedi ei rifo 2(c) neu 3(c) iddo ac nad yw wedi ateb "ie"	4 "Have you already voted, in this or another electoral ward, at the election of councillors for the county/county borough, on behalf of two persons of whom you are not the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild?" *Note to 4* *The presiding officer must say either "county" or "county borough", as appropriate. The words ", in this or another electoral ward," may be omitted if an election is taking place only in one electoral ward.*	4 "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r sir/fwrdeistref sirol, ar ran dau berson nad ydych yn briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu'n nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn, yn ŵyr neu'n wyres iddynt?" *Nodyn ar 4* *Rhaid i'r swyddog llywyddu ddweud naill ai "sir" neu "fwrdeistref sirol", fel y bo'n briodol. Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward etholiadol hon neu mewn ward etholiadol arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward etholiadol yn unig.*

(5) Mae Tabl 2 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1), ond na chaniateir ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 2

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
Disgrifiad	**Y cwestiwn sydd i'w ofyn yn Saesneg**	**Y cwestiwn sydd i'w ofyn yn Gymraeg**
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr y ceir	1(a) "Did you apply to vote by post?"	1(a) "Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy'r post?"

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
cofnod mewn perthynas ag ef yn y rhestr pleidleiswyr post	1(b) “Why have you not voted by post?”	1(b) “Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post?”
2. Person sy’n gwneud cais fel dirprwy ac sydd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy	2(a) “Did you apply to vote by post as proxy?” 2(b) “Why have you not voted by post as proxy?”	2(a) “Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy’r post fel dirprwy?” 2(b) “Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post fel dirprwy?”

(6) Ni chaniateir rhoi papur pleidleisio i unrhyw berson y mae’n ofynnol iddo ateb un neu ragor o’r cwestiynau yn Nhabl 1 neu 2 oni bai bod y person wedi ateb y cwestiwn neu’r cwestiynau’n foddhaol.

(7) Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir ymholi ynglŷn â hawl unrhyw berson i bleidleisio.

(8) Yn y rheol hon, ystyr “y copïau o’r cofnodion cofrestru” yw’r copïau a ddarperir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr orsaf bleidleisio o dan reol 32(5)(b) ac (c) (copïau o’r gofrestr etholwyr berthnasol a chopïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy’n ymwneud â’r gofrestr etholwyr berthnasol).”

44. Yn rheol 43(1)(a) (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy’n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu), yn lle “dallineb” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg”.

45. Yn rheol 44 (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy’n methu darllen: cymorth cymdeithion)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “dallineb” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg”;

(b) ym mharagraff (2), yn lle “dallineb” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg”;

(c) ym mharagraff (3), yn lle “dallineb” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg”;

(d) ym mharagraff (7)(a), yn lle “dallineb” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg”.

46. Yn rheol 46(1) (papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “yn y bleidlais” mewnosoder “yn unol â rheol 40,”.

47. Yn rheol 51(**18**) (y weithdrefn wrth gau’r bleidlais)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i’r swyddog llywyddu—

(a) selio pob blwch pleidleisio a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy’n dymuno gosod eu sêl, a

(**18**) Diwygiwyd rheol 51 gan reoliad 3(3) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

(b) rhoi allwedd y blwch pleidleisio, os oes un, ynghlwm wrth y blwch pleidleisio.";

(b) ar ôl paragraff (3)(f) mewnosoder—

"(g) y papurau pleidleisio post a'r datganiadau pleidleisio post a ddychwelwyd â llaw i'r orsaf bleidleisio, oni bai eu bod eisoes wedi eu casglu yn unol â rheoliad 79(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.";

(c) ym mharagraff (3A), yn lle "neu (f)" rhodder ", (f) neu (g)";

(d) ar ôl paragraff (3B) mewnosoder—

"(3C) Caniateir selio'r dogfennau a selir yn unol â pharagraffau (3)(c) a (d) a (3B) mewn pecynnau ffisegol neu becynnau electronig, a chaniateir i'r seliau a osodir ar y pecynnau hynny gael eu gosod yn ffisegol neu'n electronig, fel y bo'n briodol."

48. Yn rheol 64 (datgan y canlyniad)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r datganiad a wneir gan y swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (1) gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "hefyd" mewnosoder ", yn Gymraeg ac yn Saesneg";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), pan fo'r datganiad o'r personau a enwebwyd yn dangos enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan ymgeisydd, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau hynny a ddefnyddir yn gyffredin i ddatgan canlyniadau'r etholiad a rhoi hysbysiad yn eu cylch."

49. Yn rheol 64Z1(**19**) (datgan y canlyniad mewn etholiad lle ceir gornest)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r datganiad a wneir gan y swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (1) gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "hefyd" mewnosoder ", yn Gymraeg ac yn Saesneg";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), pan fo'r datganiad o'r personau a enwebwyd yn dangos enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan ymgeisydd, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau hynny a ddefnyddir yn gyffredin i ddatgan canlyniadau'r etholiad a rhoi hysbysiad yn eu cylch."

50. Yn rheol 66(**20**) (danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(**19**) Mewnosodwyd rheol 64Z1 gan reol 8(2) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).
(**20**) Diwygiwyd rheol 66 gan reol 9 o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

(a) ym mharagraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "a ganlyn" mewnosoder "yn ddiogel";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Mewn perthynas â phob pecyn, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu—

(a) disgrifiad o gynnwys y pecyn,

(b) dyddiad yr etholiad y mae'r pecyn yn gysylltiedig ag ef, ac

(c) enw'r ward etholiadol y cynhaliwyd yr etholiad ar ei chyfer.

(5) Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud trefniadau—

(a) i storio'n ddiogel yr holl ddogfennau sy'n dod i law yn unol â'r rheol hon, a

(b) i atal unrhyw fynediad heb awdurdod at y dogfennau hynny."

51. Yn Atodiad 1 (ffurf papur enwebu), yn lle'r tabl yn adran 4 (datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid) rhodder—

"**Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestredig**	**Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech yn aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb i dd/mm/bbbb)** • *Does dim angen i chi lenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.* • *Os oeddech chi'n aelod o blaid ar ddechrau'r cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn **O** fydd dechrau'r cyfnod.* • *Os gwnaethoch ymuno â phlaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn **O** fydd y dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r blaid.* • *Os gwnaethoch beidio â bod yn aelod o blaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn **Hyd at** fydd y dyddiad y gwnaethoch adael y blaid.* • *Os ydych yn parhau i fod yn aelod o blaid pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen, cewch roi "nawr" yn y golofn **Hyd at** yn hytrach na dyddiad.*	
	O	***Hyd at***"

52. Yn Atodiad 2 (y papur pleidleisio)—

(a) yn ffurf blaen y papur pleidleisio—

(i) yn y paragraff cyntaf, ar ôl "[rhowch enw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ward]";

(ii) yn yr ail baragraff—

(aa) yn lle "y blwch nesaf at eich dewis" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â'ch dewis";

(bb) yn lle "y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o'ch dewisiadau";

(iii) mae enwau'r ymgeiswyr wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(aa) yn lle "JAMES, Lisa" rhodder "THOMAS, Rhiannon";

(bb) yn lle "THOMAS, Gareth" rhodder "SINGH, Mushaq";

(cc) yn lle "THOMAS RICHARDS, Angharad" rhodder "DAVID, Brandon";

(dd) yn lle "WYATT, Cath" rhodder "PAINTER, Heather";

(b) yn ffurf cefn y papur pleidleisio, yn y ffurf cyfarwyddydau ynghylch argraffu'r papur pleidleisio—

(i) ym mharagraff 3(a), ar ôl "[rhowch enw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ward]";

(ii) ym mharagraff 3(b)—

(aa) yn lle "y blwch nesaf at eich dewis" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â'ch dewis";

(bb) yn lle "y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o'ch dewisiadau".

53. Yn Atodiad 2A(**21**) (y papur pleidleisio), yn ffurf blaen y papur pleidleisio, mae enwau'r ymgeiswyr wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle "JAMES, Lisa" rhodder "THOMAS, Rhiannon";

(b) yn lle "KAY, Michael" rhodder "EVANS, Paul David";

(c) yn lle "THOMAS, Gareth" rhodder "SINGH, Mushaq";

(d) yn lle "THOMAS RICHARDS, Angharad" rhodder "BRANDON, David";

(e) yn lle "WILLIAMS, Sian" rhodder "WILLIAMS, Claire";

(f) yn lle "WYATT, Cath" rhodder "PAINTER, Heather";

(g) yn lle "XERRI, Matthew" rhodder "SMITH, Joan Hazel".

54. Yn Atodiad 4 (datganiadau pleidleisio post)—

(a) yn ffurf y datganiad pleidleisio post i'w defnyddio pan gaiff papurau pleidleisio drwy'r post eu dyroddi a'u derbyn ar y cyd, yn y cyfarwyddiadau ar farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post, yng nghyfarwyddiad 2, yn lle "blwch" yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "bocs pleidleisio";

(b) yn ffurf y datganiad pleidleisio post i'w defnyddio pan gyfunir polau ond na chyfunir y broses o ddyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, yn y cyfarwyddiadau ar farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post, yng nghyfarwyddiad 2, yn lle "blwch" yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "bocs pleidleisio".

55. Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio)—

(a) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol i'w anfon neu i'w ddanfon at etholwr sy'n pleidleisio'n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn yr ail baragraff, yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(b) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy i'w anfon neu i'w ddanfon at ddirprwy sy'n pleidleisio'n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn y trydydd paragraff, yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio".

56. Yn Atodiad 6 (canllawiau i bleidleiswyr mewn pleidleisiau cyfun)—

(**21**) Mewnosodwyd Atodiad 2A gan reol 10(2) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

(a) yng nghyfarwyddyd 3, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”;

(b) ar ddiwedd y ffurf, ar ôl y paragraff olaf, mewnosoder—

> “**Mae pleidleisio yn gyfrinachol. Peidiwch â gadael i neb weld sut rydych chi wedi pleidleisio.**
>
> **Os ydych chi’n gwneud camgymeriad neu os oes arnoch angen help, gofynnwch i’r staff.**”

57. Yn Atodiad 6A(**22**) (canllawiau i bleidleiswyr mewn pleidleisiau cyfun), ar ddiwedd y ffurf, ar ôl y paragraff olaf mewnosoder—

> “**Mae pleidleisio yn gyfrinachol. Peidiwch â gadael i neb weld sut rydych chi wedi pleidleisio.**
>
> **Os ydych chi’n gwneud camgymeriad neu os oes arnoch angen help, gofynnwch i’r staff.**”

58. Yn Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau)—

(a) yn nheitl y ffurf, yn lle “anableddau” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen”;

(b) yn yr ail baragraff, ar ôl “[rhowch enw’r pleidleisiwr sy’n cael cymorth]” mewnosoder “**”;

(c) yn y pedwerydd paragraff, yn lle “anableddau” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen”;

(d) yn y paragraff sydd wedi ei farcio â seren, yn lle “anableddau” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen”;

(e) ar ôl y paragraff sydd wedi ei farcio â seren mewnosoder—

> “**Nid yw enw’r pleidleisiwr i gael ei ychwanegu pan fydd gan y pleidleisiwr gofnod dienw. Yn hytrach, dim ond rhif y pleidleisiwr sydd i gael ei ychwanegu (*gweler nodyn 3*).”;

(f) yn y nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau yn etholiad cynghorwyr i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol—

(i) ym mhennawd y nodiadau—

(aa) yn lle “anableddau” rhodder “amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen”;

(bb) yn y testun Cymraeg, yn lle “bwrdesitref” rhodder “bwrdeistref”;

(ii) yn lle nodyn 1 rhodder—

> **“1.** Rhif y pleidleisiwr yw rhif y person hwnnw yn y gofrestr sydd i’w defnyddio yn yr etholiad neu, hyd nes y cyhoeddir y gofrestr, rif y person hwnnw, os oes rhif, yn y rhestrau etholwyr ar gyfer y gofrestr honno. Mae rhif yr etholwr i’w weld ar y cerdyn pleidleisio a anfonwyd ato yn fuan ar ôl cyhoeddi’r etholiad neu gellir cysylltu â’r swyddog cofrestru i’w gadarnhau.”;

(iii) ar ôl nodyn 2 mewnosoder—

> **“3.** Pan fo gan y pleidleisiwr gofnod dienw, dim ond rhif y pleidleisiwr yn y copïau o’r cofnodion cofrestru, ac nid enw’r pleidleisiwr, sydd i’w roi yn y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau sy’n cael cymorth gan gymdeithion.”

(**22**) Mewnosodwyd Atodiad 6A gan reol 10(5) o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

RHAN 3

Diwygio'r Rheolau Cymunedau

Rheol 5 o'r Rheolau Cymunedau

59. Yn rheol 5(12) o'r Rheolau Cymunedau (llenwi seddi sydd wedi digwydd dod yn wag), yn lle "gyda diwrnod disgwyliedig" rhodder "â'r pedwerydd diwrnod ar ôl".

Atodlen 1 i'r Rheolau Cymunedau

60. Mae Atodlen 1 i'r Rheolau Cymunedau (rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer cymuned pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall) wedi ei diwygio yn unol â rheolau 61 i 84.

61. Yn rheol 6 (papurau enwebu: disgrifiadau), yn lle paragraff (4)(b) rhodder—

"(b) pan fo'r disgrifiad—

(i) yn cynnwys enw cofrestredig pob un o'r pleidiau a ddangosir yn y naill neu'r llall o'r fersiynau a ddisgrifir ym mharagraff (5) neu'r ddwy, neu

(ii) yn ddisgrifiad sydd wedi ei gofrestru i'w ddefnyddio gan bob un o'r pleidiau o dan adran 28B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (disgrifiadau ar y cyd), ac".

62. Yn rheol 16 (cywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref), hepgorer paragraff (2)(a).

63. Yn rheol 17 (archwilio papurau enwebu), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo papurau enwebu wedi eu danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio."

64. Yn rheol 18 (archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Pan fo ffurflen cyfeiriad cartref wedi ei danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y ffurflen honno ar gael i'r personau a grybwyllir ym mharagraff (1) ei harchwilio."

65. Yn rheol 22 (y papurau pleidleisio), ar ôl paragraff (4)(a) mewnosoder—

"(aa) pan fo ymgeisydd wedi dewis defnyddio'r gair "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" mewn disgrifiad fel y'i nodir yn rheolau 6(7) a 7, arddangos y gair hwnnw neu'r geiriau hynny ar y papur pleidleisio,".

66. Yn rheol 26 (defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw defnyddio ystafell mewn adeilad heb ei feddiannu at ddiben cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau yn peri bod person yn agored i dalu unrhyw dreth gyngor neu drethi annomestig."

67. Yn rheol 30(**23**) (penodi swyddogion llywyddu a chlercod), ym mharagraff (5) ar ôl "gorchymyn i unrhyw berson gael" mewnosoder "ei arestio,".

68. Yn rheol 32 (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir darparu'r dogfennau a ddarperir yn unol â pharagraff (3)(b), (d) ac (e) ar ffurf papur neu ar ffurf electronig.";

(b) yn lle paragraff (6)(b) rhodder—

"(b) unrhyw gyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi personau perthnasol i bleidleisio'n annibynnol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42, gan gynnwys mewn perthynas â phleidleisio'n gyfrinachol.";

(c) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Yn y rheol hon, ystyr "personau perthnasol" yw personau sy'n ei chael yn anodd neu'n amhosibl pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42 oherwydd—

(a) amhariad difrifol ar y golwg neu ddallineb rhannol, neu

(b) anabledd arall.";

(d) hepgorer paragraff (8);

(e) ym mharagraff (11)(a), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(f) ym mharagraff (11)(b), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(g) ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

"(12) Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi canllawiau i swyddogion canlyniadau mewn perthynas â'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (6)(b).

(13) Cyn rhoi canllawiau o dan baragraff (12), rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymgynghori ag unrhyw bersonau, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau perthnasol, y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(14) Wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (6)(b), rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i ganllawiau a roddir o dan baragraff (12)."

69. Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (8)(a), yn lle "a chyfeiriadau'r" rhodder ", cyfeiriadau post a chyfeiriadau e-bost, pan fônt ar gael, y";

(b) ym mharagraff (9)(b), yn lle "a chyfeiriad yr asiant arall" rhodder ", cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost yr asiant arall, pan fônt ar gael".

70. Yn rheol 34 (asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ei roi i asiant cyfrif gael ei anfon i'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd yn yr hysbysiad penodi."

71. Yn rheol 39(3)(b) (selio blychau pleidleisio), yn lle "y swyddog canlyniadau" rhodder "y swyddog llywyddu".

(**23**) Diwygiwyd rheol 30 gan reoliad 3(5) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

72. Yn lle rheol 40 (cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr) rhodder—

“Cwestiynau i’w gofyn i bleidleiswyr

40.—(1) Adeg cais am bapur pleidleisio, ond nid wedyn, caiff y swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1 (a nodir ym mharagraff (4)), neu yng ngholofn (1) o Dabl 2 (a nodir ym mharagraff (5)), un neu ragor o’r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(2) Os bydd ymgeisydd neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio’r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r swyddog llywyddu wneud hynny, rhaid i’r swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1, un neu ragor o’r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(3) Caniateir gofyn cwestiwn yn Saesneg (fel y’i nodir yng ngholofn (2) o’r Tablau) neu yn Gymraeg (fel y’i nodir yng ngholofn (3) o’r Tablau).

(4) Mae Tabl 1 yn nodi’r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) ac y caiff ymgeisydd, neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio ymgeisydd, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 1

Colofn (1)	***Colofn (2)***	***Colofn (3)***
Disgrifiad	**Y cwestiynau sydd i’w gofyn yn Saesneg**	**Y cwestiynau sydd i’w gofyn yn Gymraeg**
1. Person sy’n gwneud cais fel etholwr	1(a) “Are you the person registered in the register of local government electors for this election as follows?”	1(a) “Ai chi yw’r person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn?”
	<u>Notes to 1(a)</u> *The presiding officer must then read the whole entry from the copies of the registration records.*	<u>Nodiadau ar 1(a)</u> *Yna rhaid i’r swyddog llywyddu ddarllen y cofnod cyfan o’r copïau o’r cofnodion cofrestru.*
	1(b) “Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, otherwise than as proxy for some other person?”	1(b) “Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu mewn ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i’r gymuned hon, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?”
	<u>Notes to 1(b)</u> *The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one*	<u>Nodiadau ar 1(b)</u> *Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu mewn ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn*

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
	ward or if there are no wards.	*un ward yn unig neu os nad oes wardiau.*
2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr heblaw etholwr sydd â chofnod dienw	2(a) "Are you the person whose name appears as AB in the list of proxies for this election as entitled to vote as proxy on behalf of CD?" 2(b) "Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, as proxy on behalf of CD?" 2(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of CD?" <u>Notes to 2(a) to (c)</u> *Where a question refers to AB, the presiding officer reads out the name as it appears in the list of proxies. Where a question refers to CD, the presiding officer reads out the name of the elector.* <u>Note to 2(b)</u> The words ", in this or another ward," may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.	2(a) "Ai chi yw'r person y mae ei enw'n ymddangos fel AB yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran CD?" 2(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu mewn ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, fel dirprwy ar ran CD?" 2(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres CD?" <u>Nodiadau ar 2(a) i (c)</u> *Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at AB, mae'r swyddog llywyddu'n darllen yr enw fel y mae'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon. Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at CD, mae'r swyddog llywyddu yn darllen enw'r etholwr*. <u>Nodyn ar 2(b)</u> Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward hon neu mewn ward arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.
3. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr sydd â	3(a) "Are you the person entitled to vote as proxy on behalf of the elector	3(a) "Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
chofnod dienw, yn hytrach na'r cwestiynau yng nghofnod 2	whose number on the register of electors is [X]?" 3(b)" Have you already voted as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [X]?" 3(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of the elector whose number on the register of electors is [X]?" <u>Note to 3(a) to (c)</u> *Where the questions in this entry refer to [X], the presiding officer must read the elector's number from the copies of the registration records.*	etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" <u>Nodyn ar 3(a) i (c)</u> *Pan fo'r cwestiynau yn y cofnod hwn yn cyfeirio at [X], rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen rhif yr etholwr o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.*
4. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy y gofynnwyd y cwestiwn sydd wedi ei rifo 2(c) neu 3(c) iddo ac nad yw wedi ateb "ie"	4 "Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, on behalf of two persons of whom you are not the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild?" <u>Note to 4</u> The words ", in this or another ward," may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.	4 "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu mewn ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, ar ran dau berson nad ydych yn briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu'n nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn, yn ŵyr neu'n wyres iddynt?" <u>Nodyn ar 4</u> Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward hon neu mewn ward arall," os oes etholiadyn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.

(5) Mae Tabl 2 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1), ond na chaniateir ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 2

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
Disgrifiad	**Y cwestiwn sydd i'w ofyn yn Saesneg**	**Y cwestiwn sydd i'w ofyn yn Gymraeg**
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr y ceir cofnod mewn perthynas ag ef yn y rhestr pleidleiswyr post	1(a) "Did you apply to vote by post?" 1(b) "Why have you not voted by post?"	1(a) "Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy'r post?" 1(b) "Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post?"
2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ac sydd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy	2(a) "Did you apply to vote by post as proxy?" 2(b) "Why have you not voted by post as proxy?"	2(a) "Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy?" 2(b) "Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post fel dirprwy?"

(6) Ni chaniateir rhoi papur pleidleisio i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ateb un neu ragor o'r cwestiynau yn Nhabl 1 neu 2 oni bai bod y person wedi ateb y cwestiwn neu'r cwestiynau'n foddhaol.

(7) Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir ymholi ynglŷn â hawl unrhyw berson i bleidleisio.

(8) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau a ddarperir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr orsaf bleidleisio o dan reol 32(3)(b) ac (c) (copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol a chopïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol)."

73. Yn rheol 43(1)(a) (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg".

74. Yn rheol 44 (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cymdeithion)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(d) ym mharagraff (6)(a), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg".

75. Yn rheol 46(1) (papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "yn y bleidlais" mewnosoder "yn unol â rheol 40,".

76. Yn rheol 51(**24**) (y weithdrefn wrth gau'r bleidlais)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) selio pob blwch pleidleisio a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl, a

(b) rhoi allwedd y blwch pleidleisio, os oes un, ynghlwm wrth y blwch pleidleisio.";

(b) ar ôl paragraff (3)(f) mewnosoder—

"(g) y papurau pleidleisio post a'r datganiadau pleidleisio post a ddychwelwyd â llaw i'r orsaf bleidleisio, oni bai eu bod eisoes wedi eu casglu yn unol â rheoliad 79(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.";

(c) ym mharagraff (3A), yn lle "neu (f)" rhodder ", (f) neu (g)";

(d) ar ôl paragraff (3B) mewnosoder—

"(3C) Caniateir selio'r dogfennau a selir yn unol â pharagraffau (3)(c) a (d) a (3B) mewn pecynnau ffisegol neu becynnau electronig, a chaniateir i'r seliau a osodir ar y pecynnau hynny gael eu gosod yn ffisegol neu'n electronig, fel y bo'n briodol."

77. Yn rheol 60 (datgan y canlyniad)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r datganiad a wneir gan y swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (1), gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "hefyd" mewnosoder ", yn Gymraeg ac yn Saesneg";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), pan fo'r datganiad o'r personau a enwebwyd yn dangos enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan ymgeisydd, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau hynny a ddefnyddir yn gyffredin i ddatgan canlyniadau'r etholiad a rhoi hysbysiad yn eu cylch."

78. Yn rheol 62 (danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "a ganlyn" mewnosoder "yn ddiogel";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Mewn perthynas â phob pecyn, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu—

(a) disgrifiad o gynnwys y pecyn,

(b) dyddiad yr etholiad y mae'r pecyn yn gysylltiedig ag ef, ac

(**24**) Diwygiwyd rheol 51 gan reoliad 3(5) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

(c) enw'r ardal etholiadol y cynhaliwyd yr etholiad ar ei chyfer.

(4) Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud trefniadau—

(a) i storio'n ddiogel yr holl ddogfennau sy'n dod i law yn unol â'r rheol hon, a

(b) i atal unrhyw fynediad heb awdurdod at y dogfennau hynny."

79. Yn Atodiad 1 (ffurf papur enwebu), yn lle'r tabl yn adran 4 (datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid) rhodder—

"**Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestredig**	**Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech yn aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb i dd/mm/bbbb)** • *Does dim angen i chi lenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.* • *Os oeddech chi'n aelod o blaid ar ddechrau'r cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn **O** fydd dechrau'r cyfnod.* • *Os gwnaethoch ymuno â phlaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn **O** fydd y dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r blaid.* • *Os gwnaethoch beidio â bod yn aelod o blaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn **Hyd at** fydd y dyddiad y gwnaethoch adael y blaid.* • *Os ydych yn parhau i fod yn aelod o blaid pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen, cewch roi "nawr" yn y golofn **Hyd at** yn hytrach na dyddiad.*	
	O	***Hyd at***"

80. Yn Atodiad 2 (y papur pleidleisio)—

(a) yn ffurf blaen y papur pleidleisio—

(i) yn y paragraff cyntaf, ar ôl "[rhowch enw'r cyngor cymuned]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ardal etholiadol]";

(ii) yn yr ail baragraff—

(aa) yn lle "y blwch nesaf at eich dewis" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â'ch dewis";

(bb) yn lle "y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o'ch dewisiadau";

(iii) mae enwau'r ymgeiswyr wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(aa) yn lle "JAMES, Lisa" rhodder "THOMAS, Rhiannon";

(bb) yn lle "THOMAS, Gareth" rhodder "SINGH, Mushaq";

(cc) yn lle "THOMAS RICHARDS, Angharad" rhodder "DAVID, Brandon";

(dd) yn lle "WYATT, Cath" rhodder "PAINTER, Heather";

(b) yn ffurf cefn y papur pleidleisio, yn y ffurf cyfarwyddydau ynghylch argraffu'r papur pleidleisio—

(i) ym mharagraff 3(a), ar ôl "[rhowch enw'r cyngor cymuned]" mewnosoder "–[rhowch enw'r ardal etholiadol]";

(ii) ym mharagraff 3(b)—

(aa) yn lle "y blwch nesaf at eich dewis" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â'ch dewis";

(bb) yn lle "y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o'ch dewisiadau".

81. Yn Atodiad 4 (ffurf datganiad pleidleisio post), yn y cyfarwyddiadau ar farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post, yn y ddwy fersiwn o gyfarwyddiad 2, yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio".

82. Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio)—

(a) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol i'w anfon neu i'w ddanfon at etholwr sy'n pleidleisio'n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn yr ail baragraff, yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(b) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy i'w anfon neu i'w ddanfon at ddirprwy sy'n pleidleisio'n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn y trydydd paragraff, yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio".

83. Yn Atodiad 6 (canllawiau i bleidleiswyr)—

(a) yng nghyfarwyddyd 2, yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(b) ar ddiwedd y ffurf, ar ôl y paragraff olaf, mewnosoder—

"**Mae pleidleisio yn gyfrinachol. Peidiwch â gadael i neb weld sut rydych chi wedi pleidleisio.**

Os ydych chi'n gwneud camgymeriad neu os oes arnoch angen help, gofynnwch i'r staff."

84. Yn Atodiad 8 (ffurf datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau)—

(a) yn nheitl y ffurf, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(b) yn y paragraff cyntaf, ar ôl "[rhowch enw'r pleidleisiwr sy'n cael cymorth]" mewnosoder "**";

(c) yn y trydydd paragraff, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(d) yn y paragraff sydd wedi ei farcio â seren, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(e) ar ôl y paragraff sydd wedi ei farcio â seren mewnosoder—

"******Nid yw enw'r pleidleisiwr i gael ei ychwanegu pan fydd gan y pleidleisiwr gofnod dienw. Yn hytrach, dim ond rhif y pleidleisiwr sydd i gael ei ychwanegu (*gweler nodyn 3*).";

(f) yn y nodiadau ar ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau—

(i) ym mhennawd y nodiadau, yn lle "anableddau" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall neu anallu i ddarllen";

(ii) yn lle nodyn 1 rhodder—

"1. Rhif y pleidleisiwr yw rhif y person hwnnw yn y gofrestr sydd i'w defnyddio yn yr etholiad neu, hyd nes y cyhoeddir y gofrestr, rif y person hwnnw, os oes rhif, yn y rhestrau etholwyr ar gyfer y gofrestr honno. Mae rhif yr etholwr i'w weld ar y cerdyn pleidleisio a anfonwyd ato yn fuan ar ôl cyhoeddi'r etholiad neu gellir cysylltu â'r swyddog cofrestru i'w gadarnhau.";

(iii) ar ôl nodyn 2 mewnosoder—

"3. Pan fo gan y pleidleisiwr gofnod dienw, dim ond rhif y pleidleisiwr yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, ac nid enw'r pleidleisiwr, sydd i'w roi yn y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau sy'n cael cymorth gan gymdeithion."

Atodlen 2 i'r Rheolau Cymunedau

85. Mae Atodlen 2 i'r Rheolau Cymunedau (rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer cymuned pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol) wedi ei diwygio yn unol â rheolau 86 i 109.

86. Yn rheol 6 (papurau enwebu: disgrifiadau), yn lle paragraff (4)(b) rhodder—

"(b) pan fo'r disgrifiad—

(i) yn cynnwys enw cofrestredig pob un o'r pleidiau a ddangosir yn y naill neu'r llall o'r fersiynau a ddisgrifir ym mharagraff (5) neu'r ddwy, neu

(ii) yn ddisgrifiad sydd wedi ei gofrestru i'w ddefnyddio gan bob un o'r pleidiau o dan adran 28B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (disgrifiadau ar y cyd), ac".

87. Yn rheol 16 (cywiro mân wallau mewn papur enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref), hepgorer paragraff (2)(a).

88. Yn rheol 17 (archwilio papurau enwebu), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo papurau enwebu wedi eu danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio."

89. Yn rheol 18 (archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Pan fo ffurflen cyfeiriad cartref wedi ei danfon yn unol â'r datganiad danfon electronig, rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y ffurflen honno ar gael i'r personau a grybwyllir ym mharagraff (1) ei harchwilio."

90. Yn rheol 22 (y papurau pleidleisio), ar ôl paragraff (4)(a) mewnosoder—

"(aa) pan fo ymgeisydd wedi dewis defnyddio'r gair "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" mewn disgrifiad fel y'i nodir yn rheolau 6(7) a 7, arddangos y gair hwnnw neu'r geiriau hynny ar y papur pleidleisio,".

91. Yn rheol 26 (defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw defnyddio ystafell mewn adeilad heb ei feddiannu at ddiben cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau yn peri bod person yn agored i dalu unrhyw dreth gyngor neu drethi annomestig."

92. Yn rheol 30(**25**) (penodi swyddogion llywyddu a chlercod), ym mharagraff (5) ar ôl "gorchymyn i unrhyw berson gael" mewnosoder "ei arestio,".

93. Yn rheol 32 (cyfarpar gorsafoedd pleidleisio)—

(a) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Caniateir darparu'r dogfennau a ddarperir yn unol â pharagraff (5)(b), (d) ac (e) ar ffurf papur neu ar ffurf electronig.";

(b) yn lle paragraff (8)(b) rhodder—

"(b) unrhyw gyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi personau perthnasol i bleidleisio'n annibynnol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42, gan gynnwys mewn perthynas â phleidleisio'n gyfrinachol.";

(c) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(8A) Yn y rheol hon, ystyr "personau perthnasol" yw personau sy'n ei chael yn anodd neu'n amhosibl pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan reol 42 oherwydd—

(a) amhariad difrifol ar y golwg neu ddallineb rhannol, neu

(b) anabledd arall.";

(d) hepgorer paragraff (10);

(e) ym mharagraff (13)(a), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(f) ym mharagraff (13)(b), yn lle "blwch" rhodder "bocs pleidleisio";

(g) ar ôl paragraff (14) mewnosoder—

"(15) Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi canllawiau i swyddogion canlyniadau mewn perthynas â'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (8)(b).

(16) Cyn rhoi canllawiau o dan baragraff (15), rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymgynghori ag unrhyw bersonau, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau perthnasol, y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(17) Wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (8)(b), rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i ganllawiau a roddir o dan baragraff (15)."

94. Yn rheol 33 (penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif)—

(a) ym mharagraff (8)(a), yn lle "a chyfeiriadau'r" rhodder ", cyfeiriadau post a chyfeiriadau e-bost, pan fônt ar gael, y";

(b) ym mharagraff (9)(b), yn lle "a chyfeiriad yr asiant arall" rhodder ", cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost yr asiant arall, pan fônt ar gael".

95. Yn rheol 34 (asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif: darpariaeth atodol), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ei roi i asiant cyfrif gael ei anfon i'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd yn yr hysbysiad penodi."

96. Yn rheol 39(3)(b) (selio blychau pleidleisio), yn lle "y swyddog canlyniadau" rhodder "y swyddog llywyddu".

(**25**) Diwygiwyd rheol 30 gan reoliad 3(6) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

97. Yn lle rheol 40 (cwestiynau y caniateir eu gofyn i bleidleiswyr) rhodder—

“Cwestiynau i’w gofyn i bleidleiswyr

40.—(1) Adeg cais am bapur pleidleisio, ond nid wedyn, caiff y swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1 (a nodir ym mharagraff (4)), neu yng ngholofn (1) o Dabl 2 (a nodir ym mharagraff (5)), un neu ragor o’r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(2) Os bydd ymgeisydd neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio’r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r swyddog llywyddu wneud hynny, rhaid i’r swyddog llywyddu ofyn i unrhyw berson a ddisgrifir yng ngholofn (1) o Dabl 1, un neu ragor o’r cwestiynau a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau (2) a (3).

(3) Caniateir gofyn cwestiwn yn Saesneg (fel y’i nodir yng ngholofn (2) o’r Tablau) neu yn Gymraeg (fel y’i nodir yng ngholofn (3) o’r Tablau).

(4) Mae Tabl 1 yn nodi’r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1) ac y caiff ymgeisydd, neu asiant etholiadol neu asiant pleidleisio ymgeisydd, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 1

Colofn (1)	***Colofn (2)***	***Colofn (3)***
Disgrifiad	**Y cwestiynau sydd i’w gofyn yn Saesneg**	**Y cwestiynau sydd i’w gofyn yn Gymraeg**
1. Person sy’n gwneud cais fel etholwr	1(a) “Are you the person registered in the register of local government electors for this election as follows?”	1(a) “Ai chi yw’r person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn?”
	<u>Notes to 1(a)</u> *The presiding officer must then read the whole entry from the copies of the registration records.*	<u>Nodiadau ar 1(a)</u> *Yna rhaid i’r swyddog llywyddu ddarllen y cofnod cyfan o’r copïau o’r cofnodion cofrestru.*
	1(b) “Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, otherwise than as proxy for some other person?”	1(b) “Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu mewn ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i’r gymuned hon, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?”
	<u>Notes to 1(b)</u> *The words “, in this or another ward,” may be omitted if an election is taking place only in one*	<u>Nodiadau ar 1(b)</u> *Caniateir hepgor y geiriau “, yn y ward hon neu mewn ward arall,” os oes etholiad yn digwydd mewn*

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
	ward or if there are no wards.	*un ward yn unig neu os nad oes wardiau.*
2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr heblaw etholwr sydd â chofnod dienw	2(a) "Are you the person whose name appears as AB in the list of proxies for this election as entitled to vote as proxy on behalf of CD?" 2(b) "Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, as proxy on behalf of CD?" 2(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of CD?" <u>Notes to 2(a) to (c)</u> *Where a question refers to AB, the presiding officer reads out the name as it appears in the list of proxies. Where a question refers to CD, the presiding officer reads out the name of the elector.* <u>Note to 2(b)</u> *The words ", in this or another ward," may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.*	2(a) "Ai chi yw'r person y mae ei enw'n ymddangos fel AB yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran CD?" 2(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu mewn ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, fel dirprwy ar ran CD?" 2(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres CD?" <u>Nodiadau ar 2(a) i (c)</u> *Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at AB, mae'r swyddog llywyddu'n darllen yr enw fel y mae'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon. Pan fo cwestiwn yn cyfeirio at CD, mae'r swyddog llywyddu yn darllen enw'r etholwr.* <u>Nodyn ar 2(b)</u> *Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward hon neu mewn ward arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.*
3. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ar ran etholwr sydd â	3(a) "Are you the person entitled to vote as proxy on behalf of the elector	3(a) "Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
chofnod dienw, yn hytrach na'r cwestiynau yng nghofnod 2	whose number on the register of electors is [X]?" 3(b) "Have you already voted as proxy on behalf of the elector whose number on the register of electors is [X]?" 3(c) "Are you the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild of the elector whose number on the register of electors is [X]?" <u>Note to 3(a) to (c)</u> *Where the questions in this entry refer to [X], the presiding officer must read the elector's number from the copies of the registration records.*	etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(b) "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" 3(c) "Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yr etholwr sydd â'r rhif [X] yn y gofrestr etholwyr?" <u>Nodyn ar 3(a) i (c)</u> *Pan fo'r cwestiynau yn y cofnod hwn yn cyfeirio at [X], rhaid i'r swyddog llywyddu ddarllen rhif yr etholwr o'r copïau o'r cofnodion cofrestru.*
4. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy y gofynnwyd y cwestiwn sydd wedi ei rifo 2(c) neu 3(c) iddo ac nad yw wedi ateb "ie"	4 "Have you already voted, in this or another ward, at the election of councillors for this community, on behalf of two persons of whom you are not the spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild?" <u>Note to 4</u> *The words ", in this or another ward," may be omitted if an election is taking place only in one ward or if there are no wards.*	4 "Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yn y ward hon neu mewn ward arall, yn yr etholiad ar gyfer cynghorwyr i'r gymuned hon, ar ran dau berson nad ydych yn briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu'n nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn, yn ŵyr neu'n wyres iddynt?" <u>Nodyn ar 4</u> *Caniateir hepgor y geiriau ", yn y ward hon neu mewn ward arall," os oes etholiad yn digwydd mewn un ward yn unig neu os nad oes wardiau.*

(5) Mae Tabl 2 yn nodi'r cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (1), ond na chaniateir ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu eu gofyn o dan baragraff (2).

Tabl 2

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*
Disgrifiad	**Y cwestiwn sydd i'w ofyn yn Saesneg**	**Y cwestiwn sydd i'w ofyn yn Gymraeg**
1. Person sy'n gwneud cais fel etholwr y ceir cofnod mewn perthynas ag ef yn y rhestr pleidleiswyr post	1(a) "Did you apply to vote by post?" 1(b) "Why have you not voted by post?"	1(a) "Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy'r post?" 1(b) "Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post?"
2. Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ac sydd wedi ei enwi yn y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy	2(a) "Did you apply to vote by post as proxy?" 2(b) "Why have you not voted by post as proxy?"	2(a) "Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy?" 2(b) "Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post fel dirprwy?"

(6) Ni chaniateir rhoi papur pleidleisio i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ateb un neu ragor o'r cwestiynau yn Nhabl 1 neu 2 oni bai bod y person wedi ateb y cwestiwn neu'r cwestiynau'n foddhaol.

(7) Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir ymholi ynglŷn â hawl unrhyw berson i bleidleisio.

(8) Yn y rheol hon, ystyr "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yw'r copïau a ddarperir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr orsaf bleidleisio o dan reol 32(5)(b) ac (c) (copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol a chopïau o unrhyw hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 sy'n ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol)."

98. Yn rheol 43(1)(a) (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg".

99. Yn rheol 44 (pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: cymorth cymdeithion)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg";

(d) ym mharagraff (7)(a), yn lle "dallineb" rhodder "amhariad difrifol ar y golwg".

100. Yn rheol 46(1) (papurau pleidleisio a dendrwyd: yr amgylchiadau lle maent ar gael), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "yn y bleidlais" mewnosoder "yn unol â rheol 40,".

101. Yn rheol 51(**26**) (y weithdrefn wrth gau'r bleidlais)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

(**26**) Diwygiwyd rheol 51 gan reoliad 3(6) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

"(2) Ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu—

(a) selio pob blwch pleidleisio a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn atal gosod papurau pleidleisio ychwanegol ynddo, gan ddefnyddio sêl y swyddog llywyddu a seliau unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gosod eu sêl, a

(b) rhoi allwedd y blwch pleidleisio, os oes un, ynghlwm wrth y blwch pleidleisio.";

(b) ar ôl paragraff (3)(f) mewnosoder—

"(g) y papurau pleidleisio post a'r datganiadau pleidleisio post a ddychwelwyd â llaw i'r orsaf bleidleisio, oni bai eu bod eisoes wedi eu casglu yn unol â rheoliad 79(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.";

(c) ym mharagraff (3A), yn lle "neu (f)" rhodder ", (f) neu (g)";

(d) ar ôl paragraff (3B) mewnosoder—

"(3C) Caniateir selio'r dogfennau a selir yn unol â pharagraffau (3)(c) a (d) a (3B) mewn pecynnau ffisegol neu becynnau electronig, a chaniateir i'r seliau a osodir ar y pecynnau hynny gael eu gosod yn ffisegol neu'n electronig, fel y bo'n briodol."

102. Yn rheol 64 (datgan y canlyniad)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r datganiad a wneir gan y swyddog canlyniadau yn unol â pharagraff (1) gael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "hefyd" mewnosoder ", yn Gymraeg ac yn Saesneg";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), pan fo'r datganiad o'r personau a enwebwyd yn dangos enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan ymgeisydd, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio'r enwau blaen neu'r cyfenwau hynny a ddefnyddir yn gyffredin i ddatgan canlyniadau'r etholiad a rhoi hysbysiad yn eu cylch."

103. Yn rheol 66 (danfon dogfennau i'r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest)—

(a) ym mharagraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "a ganlyn" mewnosoder "yn ddiogel";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Mewn perthynas â phob pecyn, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu—

(a) disgrifiad o gynnwys y pecyn,

(b) dyddiad yr etholiad y mae'r pecyn yn gysylltiedig ag ef, ac

(c) enw'r ardal etholiadol y cynhaliwyd yr etholiad ar ei chyfer.

(5) Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud trefniadau—

(a) i storio'n ddiogel yr holl ddogfennau sy'n dod i law yn unol â'r rheol hon, a

(b) i atal unrhyw fynediad heb awdurdod at y dogfennau hynny."

104. Yn Atodiad 1 (ffurf papur enwebu), yn lle'r tabl yn adran 4 (datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid) rhodder—

<table>
<tr><td>"Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestredig</td><td colspan="2">Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech yn aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb i dd/mm/bbbb)

• Does dim angen i chi lenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.
• Os oeddech chi'n aelod o blaid ar ddechrau'r cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn O fydd dechrau'r cyfnod.
• Os gwnaethoch ymuno â phlaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn O fydd y dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r blaid.
• Os gwnaethoch beidio â bod yn aelod o blaid yn ystod y cyfnod, y dyddiad a ddarperir yn y golofn Hyd at fydd y dyddiad y gwnaethoch adael y blaid.
• Os ydych yn parhau i fod yn aelod o blaid pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen, cewch roi "nawr" yn y golofn Hyd at yn hytrach na dyddiad.</td></tr>
<tr><td></td><td>O</td><td>Hyd at"</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

105. Yn Atodiad 2 (y papur pleidleisio)—

(a) yn ffurf blaen y papur pleidleisio—

(i) yn y paragraff cyntaf, ar ôl "[rhowch enw'r cyngor cymuned]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ardal etholiadol]";

(ii) yn yr ail baragraff—

(aa) yn lle "y blwch nesaf at eich dewis" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â'ch dewis";

(bb) yn lle "y blwch nesaf at bob un o'ch dewisiadau" rhodder "y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o'ch dewisiadau";

(iii) mae enwau'r ymgeiswyr wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(aa) yn lle "JAMES, Lisa" rhodder "THOMAS, Rhiannon";

(bb) yn lle "THOMAS, Gareth" rhodder "SINGH, Mushaq";

(cc) yn lle "THOMAS RICHARDS, Angharad" rhodder "DAVID, Brandon";

(dd) yn lle "WYATT, Cath" rhodder "PAINTER, Heather";

(b) yn ffurf cefn y papur pleidleisio, yn y ffurf cyfarwyddydau ynghylch argraffu'r papur pleidleisio—

(i) ym mharagraff 3(a), ar ôl "[rhowch enw'r cyngor cymuned]" mewnosoder "– [rhowch enw'r ardal etholiadol]";

(ii) ym mharagraff 3(b)—

(aa) yn lle “y blwch nesaf at eich dewis” rhodder “y bocs pleidleisio gyferbyn â’ch dewis”;

(bb) yn lle “y blwch nesaf at bob un o’ch dewisiadau” rhodder “y bocs pleidleisio gyferbyn â phob un o’ch dewisiadau”.

106. Yn Atodiad 4 (datganiadau pleidleisio post)—

(a) yn ffurf y datganiad pleidleisio post i’w defnyddio pan gaiff papurau pleidleisio drwy’r post eu dyroddi a’u derbyn ar y cyd, yn y cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio drwy’r post, yng nghyfarwyddiad 2, yn lle “blwch” yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “bocs pleidleisio”;

(b) yn ffurf y datganiad pleidleisio post i’w defnyddio pan gyfunir polau ond na chyfunir y broses o ddyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy’r post, yn y cyfarwyddiadau ar farcio’r papur pleidleisio a chwblhau’r datganiad pleidleisio drwy’r post, yng nghyfarwyddiad 2, yn lle “blwch” yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “bocs pleidleisio”.

107. Yn Atodiad 5 (cardiau pleidleisio)—

(a) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol i’w anfon neu i’w ddanfon at etholwr sy’n pleidleisio’n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn yr ail baragraff, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”;

(b) yn y cerdyn pleidleisio swyddogol dirprwy i’w anfon neu i’w ddanfon at ddirprwy sy’n pleidleisio’n bersonol, ar gefn y cerdyn, yn y trydydd paragraff, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”.

108. Yn Atodiad 6 (canllawiau i bleidleiswyr mewn pleidleisiau cyfun)—

(a) yng nghyfarwyddyd 3, yn lle “blwch” rhodder “bocs pleidleisio”;

